

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan**

**Deintyddfa Abertridwr**

14 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.  
Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	7
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	12
5.	Y Camau Nesaf.....	13
6.	Methodoleg .....	14
	Atodiad A.....	16

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa Abertridwr yn 5 Stryd Thomas, Abertridwr, Caerffili, CF83 4AU, ar 14 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa Abertridwr yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Abertridwr yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Caerffili, Morgannwg Ganol. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa Abertridwr yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt yn gydlynnydd y practis), a derbynnydd.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a rhai preifat, ond rhoddir triniaeth i gleifion y GIG yn bennaf yn y practis hwn.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Abertridwr yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ac mae ei gleifion yn uchel ei barch tuag ato. Mae Deintyddfa Abertridwr yn gallu cynnig gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y buom yn siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, ac i'w gweld yn lân ac yn daclus.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel, er inni argymhell gwelliannau i'r gwaith papur er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Mae gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn cael eu storio a'u gwaredu mewn modd diogel.

Roeddem yn teimlo bod angen i'r practis wneud gwelliannau mewn perthynas â chofnodion cleifion. Gweler Atodiad A am ragor o fanylion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom fod y practis hwn yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol ac yn ganmoliaethus o ran y berthynas rhwng staff a chleifion. Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth ar gyfer ei gleifion ac roedd hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth yn y Gymraeg.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*"Hon yw'r ddeintyddfa orau i mi fy hunan; er nad yw'n agos iawn i le dwi'n byw, mae'n well gen i deithio yma."*

*"Practis cyfeillgar iawn ac effeithiol ..."*

*"Mae'r gwasanaeth yn y practis hwn o safon uchel iawn ac mae plant yn cael eu trin yn arbennig o dda."*

*"Alla' i ddim bod yn hapusach! Mae'r derbynyddion yn wych!"*

### Gofal gydag urddas

Gwnaeth 19 o gleifion gwblhau ein holiadur AGIC, ac roedd mwyafrif y cleifion wedi mynychu'r ddeintyddfa ers dros 20 mlynedd. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiadur yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno trafod materion yn breifat, roedd staff yn defnyddio ystafell driniaeth wag gan nad oedd ystafell breifat ar wahân ar gael bob amser. Gwnaethom sylwi ar y ffordd gyfeillgar ond hefyd proffesiynol y bu'r staff yn siarad â'r cleifion – wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

### Gofal amserol

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur wedi profi unrhyw oedi. Datganodd cleifion a oedd wedi profi oedi nad yw hyn yn digwydd yn aml. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ceisio sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld ar amser ond, ar brydiau, pan fydd angen apwyntiad ar frys, mae'n bosibl bydd oedi yn digwydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn sicrhau bod cleifion yn

derbyn esboniad ynglŷn â'r oedi. Roedd gan y practis system apwyntiadau hyblyg ac roeddent wedi gosod system negeseuon testun yn ddiweddar er mwyn cysylltu â chleifion pan oedd angen. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, a gwelsom arwydd yn y ffenestr yn rhoi gwybod i gleifion am rifau ffôn cyswllt mewn argyfwng ac oriau agor y ddeintyddfa. Roedd yr arwyddion hefyd yn cynnwys enwau'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y ddeintyddfa. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod enw un deintydd a oedd wedi ymddeol yn dal i fod ar y wybodaeth hon, a gwnaethom gynghori staff i newid hyn er mwyn i wybodaeth cleifion barhau i fod yn gyfredol.

Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd cleifion y buom yn siarad â nhw fod deintyddion a nyrsys yn cymryd amser i roi cyngor ynglŷn â hylendid deintyddol, y ffyrdd gorau i frwsio dannedd, y risgiau oherwydd ysmegu, a diet gwael.

Gwelsom gyflenwad digonol o daflenni a phosteri hybu iechyd yn y Gymraeg a Saesneg.

### Gofal unigol

Gwnaeth y practis gyhoeddi taflen wybodaeth ar gyfer cleifion a oedd yn rhoi cyngor a chanllawiau ar bolisiâu a gwasanaethu deintyddol a ddarperir gan y practis.

Er bod y practis wedi'i leoli mewn stryd o dai teras, roedd digonedd o ofod i bobl mewn cadeiriau olwyn gael mynediad a symud trwy gydol y ddeintyddfa. Roedd ramp a chanllawiau y tu mewn i'r drws ar gyfer cleifion a oedd â symudedd cyfyngedig. Dywedodd staff wrthym pan oeddent yn gwybod bod person ag anawsterau symudedd wedi gwneud apwyntiad eu bod yn sicrhau bod yr apwyntiad ar amser er mwyn osgoi oedi diangen. Gwelsom fod y wybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis yn cynghori cleifion i gysylltu â'r ddeintyddfa cyn eu hapwyntiad os oedd ganddynt anghenion arbennig.

Gwelsom fod posterï a oedd yn cynghori cleifion i wneud cwyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer cleifion y GIG a rhai preifat. Roedd y wybodaeth hon hefyd wedi'i rhoi yn nhaflen y practis.



## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.**

**Gwnaethom edrych ar faterion a oedd yn ymwneud â gweithdrefnau radiograffig (pelydrau-X) ac argymell gwelliannau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Gwelsom hefyd fod angen gwella rhai cofnodion cleifion. Gwnaethom argymell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu dysgu a'r arferion gorau.**

### Gofal diogel

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod mewn llefydd strategol drwy gydol yr adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract diogelwch rhag tân cyfredol. Roedd cyfeiriadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn eglur. Roedd blancedi diogelu rhag tân hefyd ar gael ac roedd y practis yn profi'r larymau tân bob wythnos. Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal ac roedd contract ar waith er mwyn gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg yn y practis sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roeddem yn fodlon bod y rhain yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd y cabinetau yn ddigonol.

### *Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau yn y practis hwn i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith ac roedd crynodeb wedi'i arddangos ar waliau'r ddeintyddfa. Dywedodd staff wrthym fod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau drwy Ddeoniaeth Ôl-raddedigion Cymru. Mae hyn yn golygu bod y dull archwilio wedi'i alinio i Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ynglŷn â dadheintio mewn practisau deintyddol cyffredinol. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau ond nad oedd wedi cael ei anfon at Ddeoniaeth Cymru eto, ac felly nid oedd tystysgrif wedi cael ei chyhoeddi.

Roeddem yn fodlon ar y mesurau rheoli heintiau a welsom yn y practis hwn, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio megis menig untro, menig gwaith trwm, sbectols amddiffyn llygaid a ffedogau.
- Sinc penodol i olchi dwylo.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd yr offer yn cael eu cludo rhwng yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth mewn cynwysyddion wedi'u selio'n ddiogel.

Gwnaethom nodi bod yr holl offer deintyddol a oedd wedi cael eu sterileiddio wedi'u rhoi mewn bagiau priodol ac roedd dyddiad y sterileiddio yn weledol ac yn amlwg. Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gwnaethom gynghori'r practis i ystyried marcio'r bag hefyd â'r dyddiad dod i ben er mwyn diogelwch.

#### *Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roeddem yn fodlon ar y mesurau ar waith yn y practis hwn i sicrhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel. Gwelsom fod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd a bod gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodol. Roedd polisi ar waith er mwyn ymdopi ag ataliad ar y galon a gwelsom fod cyfarpar priodol ar gael i ymdopi ag argyfwng meddygol megis ataliad ar y galon neu lewyg mewn modd diogel.

#### *Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisiau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod yr holl aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion. Gwnaethom nodi hefyd fod y polisi amddiffyn plant hefyd ar gael yn y Gymraeg.

#### *Offer radiograffig*

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom hefyd fod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom ddogfennau mewn perthynas ag amddiffyn rhag ymbelydredd a gwelsom er bod mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn staff a chleifion, roedd anomaledau yn y cofnodion ysgrifenedig roedd angen eu cywiro fel a ganlyn er mwyn i'r practis gyflawni ei ymrwymadau o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000:

- Mae angen i'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gael ei haddasu'n well ar gyfer y practis unigol hwn.
- Dylai enw'r Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd a'r Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd fod yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd.
- Nid yw'r rheolau lleol yn gyfredol ac mae angen eu diweddarau. Ar hyn o bryd, mae ymarferydd deintyddol sydd wedi ymddeol yn cael ei enwi fel Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd.
- Dylid cadw llyfr cofnodion i ddangos bod y prosesydd yn cael ei lanhau'n rheolaidd a bod y cemegau yn cael eu newid pan fo'n briodol.
- Fel rhan o raglen sicrhau ansawdd, dylid cadw cofnodion i ddangos bod rheolaeth dros stociau ffilm a'r gwaith o newid y toddiannau prosesu a glanhau'r prosesydd. Bob tro ar ôl i'r toddiannau prosesu gael eu newid a chyn prosesu ffilmiau cleifion, dylid tynnu llun radiograff o wrthrych prawf (megis lletem grisiau) a'i gymharu â ffilm gyfeiriol er mwyn canfod amrywiaethau yn ansawdd y prosesu cyn iddynt effeithio ar ffilmiau cleifion. Dylid cynnal archwiliad sicrwydd ansawdd mwy manwl ar gyfer radiograffau.

### **Yr hyn sydd angen ei wella**

### **Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999.**

#### Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis hwn yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

## Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf ar gyfer y ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Yn gyffredinol, canfuom fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Mae angen i'r cofnodion ar ffurf cardiau papur wedi'u mewnosod gael labeli adnabod cleifion arnynt a chynnwys amlenni radiograffig.
- Mewn tri o'r deg cofnod a adolygwyd, nid oedd unrhyw hanes meddygol cyfredol ac nid oedd unrhyw hanes o'r hanes meddygol yn cael ei ddiweddarau, hyd yn oed ar lafar.
- Mewn achosion lle cofnodwyd archwiliad peridontal sylfaenol, nid oedd unrhyw dystiolaeth o siartio pocedi chwe phwynt yn cael ei wneud ar gleifion â sgôr archwiliad peridontal sylfaenol o 3 neu 4.
- Mae angen i archwiliadau newydd archwilio a chofnodi canfyddiadau meinwe meddal a rhai mewn-eneuol ac all-eneuol.
- Ar ddau gerdyn cofnodi, canfuwyd radiograffau 'bitewing' yn ffeiliau'r cleifion ond nid oedd y rhain wedi'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion.
- Mae angen cofnodi cyfiawnhad, graddiad a chanfyddiadau clinigol yng nghyswllt sganiau pelydr-X yn nodiadau cleifion.
- Ar 10 o'r 10 cerdyn cofnod a adolygwyd, nid oedd unrhyw gyfeiriad at ysbeidiau galw'n ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal.

## **Yr hyn sydd angen ei wella**

### **Dylid gwella nodiadau cleifion yn y ffyrdd canlynol:**

- Sicrhau bod gan yr holl gofnodion ar ffurf cardiau papur wedi'u mewnosod labeli adnabod cleifion
- Sicrhau bod hanes meddygol yn ogystal â hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn cael ei gofnodi
- Sicrhau bod siartio pocedi chwe phwynt yn cael ei gofnodi pan fo'n briodol
- Sicrhau bod unrhyw archwiliadau newydd yn cofnodi canfyddiadau meinwe meddal a rhai mewn-eneuol ac all-eneuol
- Sicrhau bod cyfiawnhad, graddiad a chanfyddiadau clinigol yng nghyswllt sganiau pelydr-X yn cael eu cofnodi

- Sicrhau bod cofnodion yn cyfeirio at ysbeidiau galw cleifion yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
- Datblygu polisi i sicrhau bod hanesion meddygol yn cael eu cofnodi mewn modd safonol a'u bod yn cael eu cydlofnodi gan yr ymarferwyr
- Archwilio'r broses cadw cofnodion a gweithredu ar y canfyddiadau
- Pan welir bod arferion ysmegu, dylid dilyn hyn drwy roi cyngor ar sgrinio am ganser a chyngor ar roi'r gorau i ysmegu (Cyflawni Gwell Iechyd y Geg, Fersiwn 3)
- Dylai'r ymarferwyr sicrhau bod holl opsiynau, manteision a risgiau triniaeth yn cael eu nodi fel rhai a drafodwyd â'r claf.

O ystyried y gwelliannau y mae angen eu gwneud i gofnodion cleifion, gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a'r arfer gorau.

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn a gyflawnwyd o fewn amgylchedd glân a dymunol. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sefydlu a chynnal arferion diogel. Roedd y staff y buom yn siarad â nhw'n hapus ac yn hyderus yn eu rolau ac yn mwynhau mynd i'r gwaith. Roeddent yn gwerthfawrogi bod angen datblygiad proffesiynol parhaus i gadw'n gyfredol gyda datblygiadau mewn arferion clinigol ac roeddent yn cael eu cefnogi i wneud hyn gan yr uwch ddeintydd.**

Mae Deintyddfa Abertridwr yn bractis sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei reoli gan yr uwch ddeintydd. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers dros 16 o flynyddoedd. Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod gan bob un ohonynt contract cyflogaeth ac yswiriant indemniad. Roedd gan y ddau ddeintydd wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, ac roedd pob aelod o staff wedi cael ei imiwneiddio'n ddiweddar gyda brechiad Hepatitis B.

Gwelsom fod ffeiliau unigol ar gyfer staff a oedd yn dangos tystiolaeth o'u datblygiad proffesiynol parhaus drwy gyrsiau ar-lein yn bennaf. Gwelsom fod arfarniadau staff rheolaidd wedi cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff a, chan ddefnyddio'r rhain, roedd 'cynlluniau datblygiad personol' wedi'u gosod ar gyfer pob aelod o staff.

Gwelsom bolisi sefydlu ar gyfer staff newydd a, phe bai angen defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaethau, byddai'r rhain yn cael eu cyflogi drwy asiantaethau nyrsys deintyddol sydd ag enw da. Gwnaeth yr asiantaethau hyn gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod gan y staff y tystysgrifau roedd eu hangen mewn perthynas â chymhwysedd a diogelu.

Gwelsom gofnod o gyfarfodydd staff rheolaidd, a gwnaethom awgrymu y dylai aelodau lofnodi eu presenoldeb er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.

Gwnaethom nodi bod y ddau ddeintydd wedi'u cofrestru gydag AGIC ond bod angen adnewyddu un dystysgrif i ddangos cyfeiriad presennol adeilad AGIC. Cawsom ein sicrhau gan y deintydd y byddai hyn yn cael sylw yn fuan er mwyn sicrhau'r dystysgrif briodol.

Gwelsom fod y practis wedi'i drefnu'n dda ac yn cael ei reoli o dan arweinyddiaeth gyson yr uwch ddeintydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r gwaith ac os oedd ganddynt bryderon cysylltiedig â'r gwaith, roeddent yn hyderus yn trafod y rhain â'r deintydd.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Abertridwr yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>1</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>2</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>



- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Deintyddfa Abertridwr**

**Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth 2016**

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau				
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
9	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Yn benodol, dylai'r practis fynd i'r afael â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>Mae angen addasu'r ffeil</li></ul>	Safonau lechyd a Gofal 2.9  Rheoliadau Ymbelydred d Ïoneiddio	Diweddarau ac addasu ffeil y Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd a'r rheolau lleol.	R Sutherland	Un mis

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>amddiffyn rhag ymbelydredd yn well ar gyfer y practis unigol hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai enw'r Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd a'r Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd fod yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd (wrth i'r rhain gael eu sefydlu, dylid rhoi gwybodaeth yn y ffeil briodol).</li> <li>• Nid yw'r rheoliadau lleol yn gyfredol ac enwir ymarferydd deintyddol sydd wedi ymddeol fel un o'r Goruchwylwyr Amddiffyn rhag Ymbelydredd.</li> <li>• Dylid cadw llyfr cofnodion i ddangos bod y prosesydd yn cael ei lanhau'n rheolaidd a bod y cemegau yn cael eu newid pan fo'n briodol.</li> <li>• Dylid tynnu llun radiograff o wrthrych prawf yn ddyddiol, megis lletem grisiau, er mwyn</li> </ul>	1999	Caffael datblygydd prawf dyddiol a llyfr cofnodi newid hylif a'i gwblhau fel tasg amserlen ddirprwyedig.	R Sutherland	Un mis

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	canfod effeithiolrwydd toddiannau prosesu cyn iddynt effeithio ar ffilmiau cleifion.				
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cynnal archwiliad sicrwydd mwy manwl ar gyfer radiograffau.</li> </ul>	Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol, Nodiadau Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol ar gyfer Defnyddio Offer Pelydr-X yn Ddiogel (2001), paragraff 5.20	Mae archwiliad sicrhau ansawdd newydd wedi'i lunio gan ddefnyddio canllawiau gan y Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol. Mae cyfnod cylch cyntaf wedi'i gwblhau ac mae cylchoedd y dyfodol wedi cael eu trefnu fel rhan o raglen sicrhau ansawdd barhaus.	R Sutherland	Un mis
10	Dylid gwella cofnodion cleifion yn y ffyrdd canlynol:	Safonau lechyd a	Mae gwelliannau ar unwaith i'r broses cadw cofnodion wedi cael eu	R Sutherland	Ar unwaith i chwe mis

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod gan yr holl gofnodion ar ffurf cardiau papur wedi'u mewnosod labeli adnabod cleifion arnynt</li> <li>• Sicrhau bod hanes meddygol yn ogystal â hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn cael ei gofnodi</li> <li>• Sicrhau bod siartio pocedi chwe phwynt yn cael ei gofnodi pan fo'n briodol</li> <li>• Sicrhau bod unrhyw archwiliadau newydd yn cofnodi canfyddiadau meinwe meddal a rhai mewn-eneuol ac all-eneuol</li> <li>• Sicrhau bod cyfiawnhad, graddiad a chanfyddiadau clinigol yng nghyswllt sganiau pelydr-X yn cael eu cofnodi</li> <li>• Sicrhau bod cofnodion yn cyfeirio at ysbeidiau galw cleifion yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal</li> <li>• Datblygu polisi i sicrhau bod</li> </ul>	<p>Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deityddol Cyffredinol 4</p>	<p>trafod a chytunwyd arnynt mewn cyfarfod staff y practis.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhawyd bod copïau o ganllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deityddol Cyffredinol ar gyfer cadw cofnodion a 'Cyflawni Gwell lechyd y Geg' ar gael i staff.</li> <li>• Cytunwyd y dylid rhoi holl nodiadau ar system gyfrifiadurol dros y chwe mis nesaf, a dylai hyn wneud y gwaith o gadw cofnodion mwy manwl yn haws.</li> <li>• Bydd ffurflenni hanes meddygol safonedig yn cael eu rhoi i'r holl gleifion i'w cwblhau/diweddarau yn yr ystafell aros cyn pob apwyntiad ac yn cael eu cydlofnodi gan y clinigydd.</li> <li>• Trefnwyd amserlen ar gyfer archwiliad cadw cofnodion.</li> </ul>		

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>hanesion meddygol yn cael eu cofnodi mewn modd safonol a'u bod yn cael eu cydlofnodi gan yr ymarferwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio'r broses cadw cofnodion a gweithredu ar y canfyddiadau</li> <li>• Pan welir bod arferion ysmegu, dylid dilyn hyn drwy roi cyngor ar sgrinio am ganser a chynghor ar roi'r gorau i ysmegu (Cyflawni Gwell Iechyd y Geg, Fersiwn 3)</li> <li>• Dylai'r ymarferwyr sicrhau bod holl opsiynau, manteision a risgiau triniaeth yn cael eu nodi fel rhai a drafodwyd â'r claf.</li> </ul>				
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau				

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..R SUTHERLAND.....

**Teitl:** ..MR.....

**Dyddiad:** ..14/06/2016.....